# Pensaernïaeth Frodorol

Archaeoleg ar eich stepen drws

Yn y canoloesoedd roedd pobl yn byw mewn tai neuadd myglyd. Odde utu 1550 datblygwyd arddulliau adeiladu newydd (gan gynnwys simne iau!) a ddibynnwyd ar ba ddeunyddiau oedd ar gael yn lleol.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws neu ar Twitter @SF_Archaeology

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government
amgueddfa cymru national museum wales





## Tai Eryri

Y tai carreg yma oedd y cartrefi cyntaf yng Nghymru oedd â grisiau carreg i gyrraedd y llawr cyntaf.

Byddai lle tân ym mhob pen i'r tŷ er mwyn cynhesu'r adeilad cyfan heb fygu'r pedair ystafell.

Roedd ganddynt deils llechi neu garreg ar y to a simneiau tal. Roedd simneiau fel hyn yn arwydd o gyfoeth.



## Tai Morgannwg

Tai cerrig oedd y rhain hefyd, ond bod y toeon wedi'u gwneud o'r digonedd o wellt oedd yn yr ardal ffrwythlon hon.

Bydden nhw'n aml yn dechrau fel tŷ bychan gyda simdde yn un pen. Ar ôl adeiladu estyniad, byddai'r simdde yn aros yng nghanol y to.

Roedd y lliw coch llachar yma'n cadw ysbrydion drwg draw.



## Tai'r Gororau

Roedd digonedd o goed ar y gororau, felly fframiau pren fyddai gan bob tŷ yn yr ardal hon.

Paneli plethwaith a dwb fyddai'r waliau, gyda tho gwellt.

Coed derw crwm fyddai'n ffurfio'r 'nenffyrch' i ddal pwysau'r to i ddechrau. Pan ddaeth y rhain yn brin, waliau ffrâm bocs cadarn fyddai'n dal y pwysau.



## Tai Hir

Yn ne Cymru a'r canolbarth, roedd ystafell ychwanegol mewn tai neuadd i gadw gwartheg.

Byddai'r tŷ yn cael ei adeiladu ar lethr, gyda'r gwartheg yn cael eu cadw dros y gaeaf yn y pen isaf, tra bod y perchnogion yn byw yn y pen uwch, allan o ffordd y baw. Yr un drws fyddai'r bobl a'r anifeiliaid yn ei ddefnyddio.

Roedd y simdde fel arfer i'r dde o'r drws, ac felly'n agos at ganol y to.



## Bythynnod

Tai bychan un ystafell oedd bythynnod. Daethant yn gyffredin tua 1750 gyda chynnydd poblogaeth a thlodi. Byddent yn cael eu codi'n aml ar dir ar y cyrion, yn aml gan y perchnogion, nid crefftwyr medrus.

Fel y neuaddau cynharach, doedd dim llawr cyntaf, dim ond croglofft syml ar un pen.

Adeiladau carreg oedd nifer, ond yng ngorllewin Cymru roedd cerrig adeiladu'n brin felly waliau pridd fydden nhw'n aml.